CPYE(6)-02-21 - Papur i'w nodi 5

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Chidren, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Drwy e-bost

Dyddiad: 10 Awst 2021

Pwnc: Sesiwn weinidogol yr hydref

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Medi 2021. Bydd y sesiwn hon yn gyfle amhrisiadwy i drafod eich blaenoriaethau a'ch meysydd gwaith allweddol yng nghyd-destun cylch gorchwyl y Pwyllgor.

At hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor i hwyluso'r cyfarfod. Gofynnwn i chi anfon papur atom erbyn 9 Medi fan bellaf yn nodi'r wybodaeth a ganlyn yng nghyd-destun cylch gorchwyl y Pwyllgor:

- Eich blaenoriaethau a'ch meysydd gwaith allweddol.
- Gweithgarwch ac ymrwymiadau perthnasol yn y rhaglen lywodraethu sy'n gysylltiedig â'ch portffolio, gan gynnwys: y meysydd lle rydych wedi'ch nodi fel y 'Gweinidog arweiniol sy'n gyfrifol am y portffolio'; y meysydd sydd yn eich portffolio ond sydd wedi'u nodi'n gyfrifoldeb i'r 'Cabinet cyfan', a sut y byddwch yn cydgysylltu ac yn integreiddio ar draws y Llywodraeth gyfan i gyflawni'r rhain; a'r camau a'r amserlenni dangosol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch a'r ymrwymiadau hyn.
- Deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran goblygiadau COVID-19 yn y tymor byr a'r tymor canolig i'r sector addysg a'r ffordd y bydd ysgolion, colegau a phrifysgolion yn

gweithio o fis Medi 2021, gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn pe bai'r pandemig yn cael effaith eang ychwanegol ar bresenoldeb mewn lleoliadau addysg.

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y broses adfer ym maes addysg yn y tymor canolig a’r tymor hwy yn sgil COVID-19, yn ogystal â’r cynnydd a'r heriau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r cynllun Adnewyddu a Diwygio a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 (gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu sydd ar ddod ar gyfer adfer darpariaeth ôl-16, y cyfeirir ato yn y ddogfen Adnewyddu a Diwygio).

- Sut y byddwch yn ymdrin â pholisi dysgu gydol oes a'i gydlynu â Gweinidog yr Economi.

- Eich dull o ariannu a gweithredu argymhellion Adolygiad Reid 2017, o gofio bod rhai agweddau ar weithredu bellach yn rhan o’ch portffolio chi ac eraill yn rhan o bortffolio Gweinidog yr Economi.

- Sut y byddwch yn seilio pob penderfyniad ar hawliau plant, a sut y bydd lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar eich penderfyniadau, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd.

Fel y byddwch o bosibl yn gwybod, rydym wrthi’n cynnal ymgynghoriad cyffredinol ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ystod tymor yr hydref i glywed eu barn yn uniongyrchol.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.